

CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH

CYFARFOD 1 MAI 2018

COFNODION

PRESENNOL: Cynghorwyr John Emlyn Jones, Ceri Leeder (CL), John Lloyd Williams (JLW), Gwilym Williams (GW), Arthur Williams (AW), Phyllis Purchase (PP), Gwenan Roberts (GR), Austin Roberts (yn rhannol). Katherine Himsworth (clerc dros dro).

1 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Gwyn Morris Jones

2 DATGAN DIDDORDEB

Datganodd AR ddiddordeb yn y cais cynllunio oherwydd ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio y Sir.

3 ETHOL SWYDDOGION

Etholwyd John Emlyn Jones yn gadeirydd a Gwilym Williams yn is-gadeirydd.

4 ETHOL CYNRYCHIOLWYR

Cytunodd CL i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor y Neuadd ac AW i gynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraeth yr Ysgol.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod ar 6 Mawrth 2018.

6 MATERION YN CODI

(i) deallwyd y bydd y ceudyllau yn y ffordd yn cael eu llenwi yn yr wythnosau nesa;

(ii) dim newyddion ynglŷn â'r draeniau;

(iii) ffens ar lan yr afon. Cadarnhaodd AR nad oedd y tir yn perthyn i'r Cyngor Sir a bod swyddogion y Cyngor Sir wedi gofyn i'r perchennog i adnewyddu'r ffens;

(iv) bydd atalfa newydd ger yr eglwys yn cael ei osod yn y dyfodol agos;

(v) bydd sgip cymunedol am 9 y.b. am 12 Mai;

(vi) tendr torri gwair. Derbyniwyd tendr gan W D Williams - £345 fesul toriad. Derbyniwyd hyn;

(vii) tendr gosod hysbysfwrdd. Ni dderbyniwyd unrhyw dendrau. Cytunwyd gwahodd tendrau am y gwaith unwaith eto, heb unrhyw gyfyngiadau amser y tro hwn;

(viii) diffibrilydd. Cytunwyd talu £983 (yn cynnwys TAW) ar gyfer diffibrilydd newydd.

8 CYNLLUNIO

0/45066 Estyniad a thoi ar oledf wrth flaen ac ochr annedd bresennol. Mr Craig Greenhalgh, Nant y Cerrig Ucha.

Dim sylw.

9 ADRODDIAD ARIANNOL

Dywedodd JEJ bod y cyfrifon wedi cael eu hanfon at Marion Pryor (archwiliwr mewnol).

Llofnodwyd tair sic:

£98 i Sue Hayward

£36 i Neuadd Aberconwy

£983.88 i Zoll Medical UK.

Bydd JEJ yn bwrw ymlaen â'r broses o fancio ar y we.

10. ADOLYGU ASESSIAD RISG.

Trafodwyd a diweddarwyd yr asesiad.

11 GOHEBIAETH

Gwobr Pentrefi Conwy 2018. Cytunwyd i gymryd rhan yn y gystadleuaeth. CL i ofyn i drefnwyr digwyddiadau a sefydliadau yn y pentre am dudalen ynglŷn â phob un. CL hefyd i anfon y rhestr i bob aelod o'r Cyngor yn gofyn am sylwadau. Cytunwyd y dylai'r cais fod yn ddwyieithog (gyda chymorth JEJ). Cynigodd JEJ gydlynu diweddariad y wefan. Cytunodd GR i sicrhau bod y rhestr yn cynnwys bethau ar gyfer pobl ifanc.

Bydd hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad am 6.30 y.h. ar 11 Mehefin yn Bodlondeb ac am 7 y.h. ar 18 Mehefin yn Glasdir. Cytunwyd bydd JEJ a GW yn mynd i'r sesiwn yn Glasdir; gofynnodd JEJ i un Cynghorydd arall fynd a gadael iddo fo wybod.

Nodwyd bydd rheolaeth traffig dros dro ar Ffordd Bodnant yn ystod yr haf. Cytunwyd i AR ofyn na ddylai'r gwaith ddigwydd yn ystod mis Mehefin (oherwydd yr amser arbennig o brysur yn yr Ardd).

12 UFA

(i) Derbyniwyd llythyr oddi wrth Sally a Gordon Bell yn gofyn am fanylion am fedd teuluol. JLW i drafod y sefyllfa gyda nhw.

(ii) Cytunwyd gofyn i Catrin Williams ddod i'r cyfarfod nesa i drafod gwaith Pwyllgor Apel Eglwys Bach.

(iii) Derbyniwyd llythyr oddi wrth GMJ yn ymddiswyddo. JEJ i ysgrifennu llythyr o ddiolch am ei waith. Cytunwyd dechrau proses o ddod o hyd i aelod newydd y Cyngor; KH i symud ymlaen.

(iv) Derbyniwyd llythyr gan y Hwylusydd Tai Gwledig yn gwahodd pobl yn y pentre i ddweud wrth y swyddog cynllunio beth sydd angen yn y pentre o ran tai fforddiadwy. Cytunwyd bod hi'n bwysig tanlinellu y galw am dai fforddiadwy. AR i anfon y llythyr at CL a KH iddyn nhw roi cyhoeddusrwydd iddo.

(v) Adroddodd GW bod y gwaith ar y ffosydd wedi cael ei wneud.

(vi) Adroddodd AR ei fod wedi rhoi rhestr o ffyrdd mewn achos gwael i'r Cyngor Sir. Byddant yn gwneud rhywfaint o drwsio.

13 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

5 Mehefin 2018.